

PRIFYSGOL CAERDYDD

Adroddiad a Datganiadau Ariannol

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012

PRIFYSGOL CAERDYDD

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL 2012

CYNNWYS	Tudalen
Gwybodaeth Gyfeirio a Gwybodaeth Weinyddol	3
Adroddiad y Trysorydd - Adolygiad o'r Gweithredu a'r Sefyllfa Ariannol	4
Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol	6
Datganiad o Fudd Cyhoeddus	7
Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd	8
Adroddiad yr archwilwyr annibynnol	10
Cyfrif Cyfnerthedig Incwm a gwariant	12
Datganiad Cyfnerthedig o gost hanesyddol y gwargedion	12
Datganiad Cyfnerthedig o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig	13
Y mantolenni	14
Datganiad o'r llif arian cyfnerthedig	16
Nodiadau ar y datganiadau ariannol	17

PRIFYSGOL CAERDYDD

GWYBODAETH GYFEIRIO A GWYBODAETH WEINYDDOL

Gwybodaeth gyfeirio a gwybodaeth weinyddol

Enw'r Elusen: Prifysgol Caerdydd
Rhif Cofrestru yr Elusen: 1136855
Swyddfa Gofrestredig: Y Prif Adeilad
Parc Cathays
Prifysgol Caerdydd
CF10 3AT

Aelodau'r Cyngor

Cadeirydd: Mr R N Roberts (1 Awst – 31 Rhagfyr 2011); Mr D John Jeans (o 1 Ionawr 2012 ymlaen)

Is-Gadeirydd: gwag

Trysorydd Mygedol: Mrs P Herbert

Yr Is-Ganghellor: Dr D Grant (daeth yr Athro C Riordan yn ei le ar 1 Medi 2012)

Y Dirprwy Is-Ganghellor: Yr Athro E Treasure

Mr R Aggarwal (o 28 Mai 2012 ymlaen)
Mr M Coates-Walker (ymddiswyddodd ar 31 Gorffennaf 2012 a daeth Mr H Newman yn ei le)
Mr G Clarke
Mr R Calil
Mrs P Donovan (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Mr A Embiricos (ymddeolodd ar 31 Gorffennaf 2012)
Yr Athro R Evans
Mr D Francis (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Mr D Hodgson
Yr Athro K Holford (o 1 Awst 2012 ymlaen)
Yr Athro G Hutchings (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Mr S Gibson
Dr G Guilford
Mrs S Gwyer-Roberts
Yr Athro D M Jones (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Yr Athro W Gear
Mr G Lewis (ymddeolodd ar 31 Gorffennaf 2012)
Yr Athro G Maio (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Yr Athro K Meek (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Yr Athro J Osmond (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Mrs F Peel
Y Parchedig G Powell
Yr Athro P Price (o 1 Awst 2012 ymlaen)
Ms S Reid (ymddiswyddodd ar 31 Gorffennaf 2012 a daeth Ms E Button yn ei lle)
Sir Jon Shortridge (ymddiswyddodd ym mis Mawrth 2012)
Yr Athro HR Thomas
Yr Athro T Threadgold (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Dr G Treharne
Yr Athro T Wess (daeth tymor ei swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2012)
Mrs G Williams
Yr Athro AJ Whitley (penodwyd o 1 Awst 2012 ymlaen)

Bu'r holl bersonau a restrwyd uchod yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwyr yr Elusen drwy gydol y cyfnod a gaiff sylw yn yr Adroddiad hwn. Oni nodir fel arall, yr oeddent hefyd yn y swyddi hynny ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad.

PRIFYSGOL CAERDYDD

ADRODDIAD Y TRYSORYDD – ADOLYGIAD O'R GWEITHREDU A'R SEFYLLFA ARIANNOL

Cwmpas y Datganiadau Ariannol

Mae'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Gorffennaf 2012 yn cyfnerthu canlyniadau'r Brifysgol a'i his-gwmni, sef University College Cardiff Consultants Cyf. Cenhadaeth y Brifysgol yw mynd ar drywydd ymchwil, dysgu ac addysgu o ragoriaeth ryngwladol ac sy'n cael effaith ledled y byd.

Canlyniadau am y Flwyddyn

Dyma grynodeb o ganlyniadau incwm a gwariant cyfnerthedig y Brifysgol am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2012:

	<u>2011/12</u> £000	<u>2010/11</u> £000
Incwm	425,539	413,030
Gwariant	<u>(417,088)</u>	<u>(402,463)</u>
Gwarged am y Flwyddyn ar ôl Dibrisio		
Asedau yn ôl Prisiad a Threth	8,451	10,567
Trosglwyddiad o Incwm Cronnus mewn Gwaddolion	<u>404</u>	<u>1,220</u>
Gwarged am y Flwyddyn a Gadwyd yn y Cronfeydd Cyffredinol wrth gefn	<u>8,855</u>	<u>11,787</u>
Gwarged am y Flwyddyn ar Sail Cost Hanesyddol	<u>11,820</u>	<u>13,938</u>

Cynyddodd yr incwm M£12.5 (3%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd cynnydd yn yr incwm o ffioedd dysgu (M£4.2), incwm gweithredu arall, gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd (M£7) a grantiau ymchwil (M£3), ond rhaid gosod hynny'n rhannol yn erbyn y gostyngiad yn yr incwm oddi wrth CCAUC (M£2.9).

Cynyddodd y gwariant M£14.5 (3.6%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu'n bennaf gynnydd yn y gwariant ar staff, sef M£8.4, a gwariant ar eitemau heblaw staff o M£6.8.

Dangosyddion Allweddol Perfformiad Ariannol

Bydd y Brifysgol yn monitro dangosyddion allweddol ei pherfformiad ariannol ac yn eu cymharu yn erbyn rhai Grŵp Russell o brifysgolion dan arweiniad ymchwil ledled y DU. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am brifysgolion Grŵp Russell yn dangos bod cymarebau Caerdydd yn unol â'i chymaryddion fel yr amlinellir yn y tabl isod:-

Cymarebau Ariannol	Caerdydd			Prifysgolion Grŵp Russell – 10/11		
	09/10	10/11	11/12	Uchel	Isel	Cymedr
Cyfanswm yr Incwm - M£	429	411	426	1,251	234	436
Gwarged i gyfanswm yr incwm - %	2.5	2.6	2.8	13.3	0.7	4.3
Cymhareb yr asedau cyfredol â'r rhwymedigaethau cyfredol	2.6	2.7	2.9	2.8	0.5	1.2
% o gyfanswm y costau staff i gyfanswm yr incwm	57	59	59	61	46	54
% o'r benthyciadau tymor-hir i gyfanswm yr incwm	6	6	5	61	0	15

PRIFYSGOL CAERDYDD

ADRODDIAD Y TRYSORYDD – ADOLYGIAD O'R GWEITHREDU A'R SEFYLLFA ARIANNOL

Mae gan y Cyngor ddisgwyliad rhesymol bod y Brifysgol yn meddu ar ddigon o adnoddau i barhau i fodoli'n weithredol hyd at y dyfodol rhagweladwy. Dyna pam y mae'r Brifysgol yn dal i fabwysiadu'r sail 'busnes byw' wrth lunio'r cyfrifon.

Perfformiad y Buddsoddiadau a'r Llif Arian

Mae buddsoddiadau'r Brifysgol wedi'u rheoli o fewn fframwaith sy'n cyfyngu ar fod yn agored i hynt a helynt unrhyw wrthbarti unigol ac yn rhannu'r risg ymhlith asedau y mae parch mawr iddynt ond yn sicrhau bod modd cyflawni amcanion y Brifysgol drwy sicrhau digon o hylifedd. Polisi'r Brifysgol yw diogelu gwerth cyfalaf ei hadneuron tymor-byr drwy ei pholisi o reoli buddsoddiadau'n ddoeth.

Buddsoddir asedau gwaddol y Brifysgol ar gyfer y tymor hwy a rhwng 31 Gorffennaf 2011 a Gorffennaf 2012 bu gostyngiad o M£0.5 yn eu gwerth.

Fusion Ccc

Mae cytundeb deg-mlnydd a lofnodwyd â Fusion Ccc yn rhoi'r hawl i'r cwmni ddatblygu'n fasnachol yr eiddo deallusol a gynhyrchir drwy ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Cododd gwerth y cyfranddaliadau yn Fusion Ccc i M£5.1 (M£2.8 ar 31 Gorffennaf 2011). Mae'r ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu newid yn yr ymdriniaeth gyfrifyddia â chyfranddaliadau Fusion i roi cynrychiolaeth decach o ganlyniadau'r Brifysgol. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 34 y cyfrifon.

Cynlluniau Pensiwn

Mae staff clinigol, academiaidd a chysylltiedig y Brifysgol yn aelodau o Gynllun Blwydd-dal y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) neu o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion, a'r unig gost a gydnabyddir yn y cyfrifon yw cyfraniadau'r cyflogwr.

Mae'r staff anacademaidd ac anghlinigol yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (y CUPF) a Chynllun Llywodraeth Leol. Y diffyg cyfun ar y ddau gynllun, fel y'i cyfrifwyd at ddibenion FRS 17, oedd M£52.1 ar 31 Gorffennaf 2012 (M£34.6 ar 31 Gorffennaf 2011). Y prif reswm dros y cynnydd yn y diffyg yw i atebolrwydd y CUPF godi M£18.6, yn bennaf am i dybiaethau am y gyfradd ddisgownt fod yn is nag yn y flwyddyn flaenorol oherwydd y gostyngiad yng nghynnyrch y bondiau corfforaethol dros y flwyddyn.

Datblygiadau at y Dyfodol

Yn ystod 2011/12, daliodd y Brifysgol i fuddsoddi mewn adeiladu asedau fel adeiladau academiaidd ac isadeiledd cymorth. Mae datblygiadau pellach ar y gweill at y dyfodol, gan gynnwys ailwampio ar adeiladau academiaidd ar gampws Parc Mynydd Bychan a champws Parc Cathays, a pharhau i fuddsoddi cryn dipyn yn systemau technoleg gwybodaeth y Brifysgol. Mae adolygiad o'r gofynion o ran isadeiledd at y dyfodol yn mynd rhagddo er mwyn diwygio'r cynllun ar gyfer datblygiadau at y dyfodol.

Casgliad

Mae'r alldro ariannol yn dal i gadarnhau bod y sefyllfa'n foddhaol gan ei fod yn adlewyrchu cryfder ariannol cyfredol y Brifysgol. Mae cryn risg o hyd yn gysylltiedig â'r newidiadau yn nhrefn ariannu addysg uwch yn y Deyrnas Unedig a Chymru ac mae hynny ynghyd â'r amodau economaidd anodd yn peri bod y perfformiad ariannol yn y dyfodol yn arbennig o ansicr.

Philippa Herbert - Trysorydd
Dyddiad 17^{eg} Rhagfyr, 2012

PRIFYSGOL CAERDYDD

DATGANIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i arddangos yr arferion gorau ym mhob agwedd ar ei llywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r modd y mae'r Brifysgol wedi cymhwyso'r egwyddorion a nodir yn Adran 1 Cod y DU ar Lywodraethu Corfforaethol (2010) a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Ei ddiben yw helpu'r sawl sy'n darllen y Datganiadau Ariannol i ddeall sut mae'r egwyddorion wedi'u cymhwyso.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am system reoli mewnol y Brifysgol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Mae'r system honno wedi'i llunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion y busnes ac ni all ddarparu ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, rhag camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae gan y Cyngor broses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol ac mae'r broses honno wedi bod ar waith am y cyfan o'r flwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2012 a hyd at ddyddiad y llofnodi. Caiff y Cyngor adroddiad rheolaidd sy'n cynnwys adrannau ar reoli risg, rheoli a chydymffurfio sy'n cyd-fynd â'r cyfarwyddyd ar reoli mewnol i gyfarwyddwyr ar God y DU ar Lywodraethu Corfforaethol (2010) fel y barnwyd ei fod yn briodol ar gyfer addysg uwch. Ar sicrhau'r radd berthnasol o sicrwydd y mae'r pwyslais, ac nid ar wneud dim ond adrodd ar sail eithriadau.

Yn unol â Chanllaw Pwyllgor Cadeiryddion y Brifysgol, caiff y Cyngor adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at ganlyniadau ac amcanion strategol allweddol y Brifysgol a bydd hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Cyngor.

Bydd Cyngor y Brifysgol yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn ac mae ganddo sawl pwyllgor, gan gynnwys Pwyllgor Polisi ac Adnoddau, Pwyllgor Llywodraethu, Pwyllgor Taliadau a Phwyllgor Archwilio. Mae'r holl Bwyllgorau hynny wedi'u sefydlu'n ffurfiol, ac mae iddynt eu priod gylchoedd gwaith.

O ran ei gyfrifoldebau strategol a'i gyfrifoldebau datblygu, caiff y Cyngor argymhellion a chynghor gan y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau sy'n un o bwyllgorau sefydlog y Cyngor, a chan y Senedd, sef y corff sy'n gyfrifol am faterion academaidd y Brifysgol.

Y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau sy'n rheoli, yn monitro ac yn rheoleiddio cyllid, cyfrifon a buddsoddiadau'r Brifysgol o fewn y polisi cyffredinol a bennwyd gan y Cyngor. Ceir hefyd Grŵp Cyllid. Fe'i cadeirir gan y Trysorydd ac mae'n cynnwys aelod lleig o'r Cyngor yn ogystal â'r Is-Ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolwr Ariannol. Bydd y Grŵp Cyllid yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i drafod materion ariannol manwl a materion rheoli mewnol er mwyn cynghori'r Pwyllgor Polisi ac Adnoddau neu'r Pwyllgor Llywodraethu yn ôl yr angen.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu yn cynghori'r Cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â llywodraethu ac ynghylch lefel y cydymffurfio gan y Brifysgol â gofynion gorfodol deddfwriaeth a rheoliadau eraill. At hynny, bydd y Pwyllgor Llywodraethu yn ceisio ac yn argymhell aelodau lleig a chyfetholedig newydd i wasanaethu ar y Cyngor ei hun, a'i is-bwyllgorau, yng ngoleuni'r sgiliau a'r cymwyseddau gorau posibl y bydd eu hangen. Aelodau lleig yw'r mwyafrif o aelodau'r Cyngor.

Y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar daliadau'r mwyafrif o'r staff uwch, gan gynnwys yr Is-Ganghellor.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Bydd archwilwyr mewnol y Brifysgol yn bresennol ym mhob cyfarfod, a'r archwilwyr allanol yn bresennol i ystyried y Datganiadau Ariannol blynyddol a llythyr y rheolwyr yn ogystal â'r cynllun archwilio blynyddol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y Brifysgol yn ogystal ag ymatebion a chynlluniau gweithredu y rheolwyr. Bydd hefyd yn cael ac yn ystyried adroddiadau gan CCAUC, Swyddfa Archwilio Cymru a Chynghorau Ymchwil y DU yn ôl fel y maent yn effeithio ar fusnes y Brifysgol, ac yn monitro i ba raddau y glynwyd wrth y gofynion rheoleiddio. Nid yw'r Is-Ganghellor na'r uwch-weithredwyr eraill yn aelodau o'r Pwyllgor ond cânt ddod i'w gyfarfodydd drwy wahoddiad.

PRIFYSGOL CAERDYDD

DATGANIAD O FUDD CYHOEDDUS

Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd ym 1883 a chafodd Siarter Frenhinol ym 1884. Yn wreiddiol, yr oedd ganddi dri aelod ar ddeg o staff academiaidd a 151 o fyfyrwyr. Erbyn heddiw, hi yw un o brifysgolion mwyaf, mwyaf poblogaidd a mwyaf eu parch yn y DU. Mae Caerdydd yn aelod o Grŵp Russell o brifysgolion ymchwilddwys y DU.

Sylfaen llwyddiant y Brifysgol yw doniau ac ymroddiad ei staff a'i myfyrwyr. Yn ôl arolwg cynhwysfawr, mae'r staff yn teimlo lefelau uchel o foddhad cyffredinol ynglŷn â'u gwaith. Ategir hynny gan lu o fentrau'r Brifysgol i gynnal amgylchedd gweithio cadarnhaol. Mae profiad y myfyrwyr hefyd yn flaenoriaeth fawr. Daw myfyrwyr y Brifysgol o amrywiaeth o gefndiroedd ac o bob cwr o Gymru, o weddill y DU ac o weddill y byd, ac ategir hynny drwy dargedu amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau. Bydd llawer o gynlluniau gradd y Brifysgol yn darparu eithriad rhannol neu lwyr rhag arholiadau proffesiynol perthnasol a bydd dros 50 o'i chynlluniau astudio yn elwa o achrediad a mewnbwn cyrff proffesiynol. Mae Caerdydd ymhlith prifysgolion mwyaf blaenllaw'r DU o ran sicrhau cyflogaeth i'w graddedigion gan i 94 y cant o raddedigion 2010 ddod o hyd i swydd, neu fynd i astudio ymhellach, cyn pen chwe mis ar ôl graddio. Bydd rhyw ugain y cant o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn mynd ymlaen i astudio'n ôl-raddedig.

Bydd myfyrwyr y Brifysgol yn dal i gefnogi prosiectau cymunedol lleol yn eu miloedd. Nid yw elusennau gwrth-fwlio, prosiectau cadwraeth lleol a chymorth i ddiodefwyr canser yn ddim ond dyrmaid o'r prosiectau lleol sydd wedi elwa o weithgareddau Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd (SVC), mudiad sy'n cael ei gydnabod yn un o'r mudiadau gwirfoddoli mwyaf a mwyaf llwyddiannus i fyfyrwyr yn y DU.

Gan i Brifysgol Caerdydd sicrhau statws cenedlaethol a rhyngwladol, ei gweledigaeth yw bod yn brifysgol sy'n arwain y byd a sicrhau'r manteision cysylltiedig i'w myfyrwyr, ei staff a'i holl randdeiliaid eraill. Mae bri'r Brifysgol am ymchwil yn un o'r prif ffactorau wrth recriwtio staff a myfyrwyr.

Mae creu tri Sefydliad Ymchwil unigryw yn amlygu pendantrwydd awydd y Brifysgol i fynd ar drywydd ymagweddau gwyddonol newydd at rai o bryderon pwysicaf y byd, sef tacl canser, lleddfu dioddefaint salwch meddwl a mynd i'r afael â'r her o greu dyfodol cynaladwy i gymunedau ledled y byd.

Bydd ymchwil Caerdydd yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ac, ar y cyd ag amrywiaeth mawr o bartneriaid, bydd hi'n cymhwyso hynny at sicrhau manteision go-iawn yn lleol ac ar hyd a lled y byd.

Rôl bwysig i'r Brifysgol yw hybu iechyd a lles gan gyfeirio'n arbennig at anghenion Cymru, a chyflawnir y rôl honno drwy gyfrwng ymagwedd ryngddisgyblaethol ac amlbartneriaeth gref. Partner canolog i'r Brifysgol yn y rôl Cymru-gyfan honno yw'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG) yng Nghymru, gwasanaeth y mae gan y Brifysgol gysylltiadau ag ef ar bob lefel.

Mae gweithgareddau rhyngwladol y Brifysgol yn amrywio o'n cydweithio â phartneriaid busnes ac addysg ledled y byd i gyfraniad aruthrol ein myfyrwyr rhyngwladol i fywyd cymdeithasol a diwylliannol y Brifysgol. Bydd Caerdydd hefyd yn denu ymchwilwyr o'r radd flaenaf o bob rhan o'r byd. Croesewir myfyrwyr rhyngwladol o 100 o wahanol wledydd ac o bob cyfandir ac maent yn rhyw 12% o gyfanswm y boblogaeth o'r myfyrwyr.

Gan fod y Brifysgol yn bresenoldeb mawr yng Nghaerdydd fel cyflogwr ac addysgwr, mae ei pherthynas â'r Ddinas hefyd yn arbennig o bwysig ac mae hi wedi ymrwymo i gynnal a meithrin rhagor ar y berthynas – un sydd o fudd i'r ddwy ochr – â'r gymuned yr ydym ni'n gymaint rhan bwysig ac annatod ohoni.

www.caerdydd.ac.uk

Rhif cofrestru Prifysgol Caerdydd fel elusen yw 1136855.

PRIFYSGOL CAERDYDD

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD

Yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyngor sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reoli mewnol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno Datganiadau Ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol a'i his-gwmnïau yn rhesymol o gywir ar unrhyw adeg ac yn ei alluogi i sicrhau y llunnir y Datganiadau Ariannol yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifydda mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, a safonau cyfrifydda perthnasol eraill. Yn ogystal, ac o fewn amodau a thelerau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng CCAUC a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ddeiliad dynodedig y swydd, lunio Datganiadau Ariannol am bob blwyddyn ariannol unigol gan roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac o'r gwarged neu'r ddyled, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifedd arian am y flwyddyn honno.

Wrth lunio'r Datganiadau Ariannol, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod:

- polisïau cyfrifydda addas yn cael eu dewis a'u cymhwyso'n gyson;
- y dyfarniadau a'r amcangyfrifon yn rhesymol a doeth;
- y safonau cyfrifydda cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y Datganiadau Ariannol;
- y Datganiadau Ariannol wedi'u llunio ar sail busnes byw. Mae'r Cyngor yn fodlon bod ganddo adnoddau digonol i barhau mewn busnes yn y dyfodol rhagweladwy: dyna pam y mae'r sail busnes byw yn dal i gael ei mabwysiadu wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i wneud hyn:

- sicrhau y caiff y cyllid a gaiff hi gan CCAUC, Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyllido eraill ei ddefnyddio'n unig i'r dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol â CCAUC ac unrhyw amodau eraill y gall CCAUC neu Gorff Cyllido eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod dulliau rheoli ariannol a rheolaethol priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau a rhwystro a chanfod twyll;
- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol a'i his-gwmnïau eu rheoli'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae elfennau allweddol system rheolaeth ariannol fewnol y Brifysgol, a luniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod, yn cynnwys:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academiaidd a chyfarwyddiaethau gweinyddol ac o'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses gynllunio, a ategir â chyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol manwl, a bod y Cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb gyffredinol;
- adolygiadau rheolaidd o'r canlyniadau ariannol, gan gynnwys adrodd ar amrywiadau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolwg o ran canlyniadau;
- gofynion sydd wedi'u diffinio a'u ffurfioli'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant;
- Rheoliadau Ariannol cynhwysfawr sy'n rhoi manylion y dulliau rheoli a'r gweithdrefnau ariannol ac sydd wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor;
- tîm Archwilio Mewnol y mae ei raglen flynyddol wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ac yna gan y Cyngor.

PRIFYSGOL CAERDYDD

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD

Er hynny, y cyfan y gall unrhyw system reoli ariannol fewnol ei wneud yw darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Drwy Orchymyn y Cyngor

Yr Athro Colin Riordan
Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 17^{eg} Rhagfyr, 2012

PRIFYSGOL CAERDYDD

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol (y “datganiadau ariannol”) y grŵp a’r prif sefydliad am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012, sef Cyfrif o Incwm a Gwariant y Grŵp, y Datganiad Cyfnerthedig o Wargedion Cost Hanesyddol, y Datganiad Cyfnerthedig o Gyfanswm Cydnabyddedig yr Enillion a’r Colledion, Mantolenni’r Grŵp a’r Prif Sefydliad, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian y Grŵp a’r nodiadau cysylltiedig. Wrth eu llunio, y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd atynt yw’r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifydda y Deyrnas Unedig (yr Arferion Cyfrifydda a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Priod gyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol a’r archwilwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd, y Cyngor (sydd hefyd yn ymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith elusennau) sy’n gyfrifol am lunio datganiadau ariannol sy’n cynnig darlun gwir a theg.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a mynegi barn am y datganiadau ariannol yn unol â’r gyfraith gymwys a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae’r safonau hynny’n ei gwneud hi’n ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio i Archwilwyr.

Mae’r adroddiad hwn, gan gynnwys y barnau a fynegir ynddo, wedi’i lunio ar gyfer Cyngor y sefydliad fel corff yn unol â Siarteri a Statudau’r sefydliad ac Erthyglau Llywodraethu’r sefydliad ac adran 124B Deddf Diwygio Addysg 1988 ac adran 144 Deddf Elusennau 2011 a’r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno (Rheoliad 30 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008) ac i ddim diben arall. Nid ydym, wrth roi’r barnau hyn, yn derbyn nac yn ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldeb at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu iddi neu y gall fynd i’w (d)dwyllo ac eithrio lle y cydsyniwyd â hynny’n benodol ac yn ysgrifenedig gennym ni ymlaen llaw.

Cwmpas yr archwiliad o’r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael digon o dystiolaeth am y symiau a’r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys, p’un a achoswyd hynny drwy dwyll neu wall. Mae hynny’n cynnwys asesu: a yw’r polisïau cyfrifydda yn briodol ar gyfer amgylchiadau’r grŵp a’r prif sefydliad, wedi’u cymhwyso’n gyson ac wedi’u datgelu’n ddigonol; rhesymolrwydd yr amcangyfrifon cyfrifydda o bwys a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenwn yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod anghysonderau o bwys â’r datganiadau ariannol a archwilir. Os down i wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau ymddangosiadol o bwys, fe ystyriwn ni’r goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad.

Barn am y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion y grŵp a’r prif sefydliad ar 31 Gorffennaf 2012, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifocedd arian y grŵp a’r prif sefydliad, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi’u llunio’n briodol yn unol â’r Arferion Cyfrifydda a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi’u llunio’n unol â gofynion y Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifydda ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi’u llunio’n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 a Rheoliad 14 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

PRIFYSGOL CAERDYDD

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD

Barnau am faterion eraill a ragnodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

Yn ein barn ni, ac ym mhob ffordd o bwys:

- mae cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag, ac a weinyddir gan y Sefydliad at ddibenion penodol, wedi'u cymhwyso'n briodol at y dibenion hynny ac wedi'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw delerau ac amodau eraill sydd ynghlwm wrthynt.
- mae'r incwm wedi'i gymhwyso yn unol â statudau'r sefydliad ac
- mae'r cronfeydd a ddarparwyd gan CCAUC wedi'u cymhwyso yn unol â'r memorandwm ariannol ac unrhyw delerau ac amodau ariannol sydd ynghlwm wrtho.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt oherwydd eithrio

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol:

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os barnwn ni:

- fod y wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson â'r datganiadau ariannol mewn unrhyw ffordd o bwys; neu
- nad yw'r prif sefydliad wedi cadw cofnodion cyfrifydda digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y prif sefydliad yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifydda; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a phob eglurhad sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd i chi os barnwn ni:

- fod y datganiad o reolaeth fewnol a gynhwyswyd fel rhan o'r Datganiad o Lywodraethiant Corfforaethol yn anghyson â'n gwybodaeth o'r prif sefydliad a'r grŵp.

PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Caerdydd

Mae PricewaterhouseCoopers LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd, ac mae ef wedi'i benodi'n archwilydd dan adran 144(2) Ddeddf Elusennau 2011.

PRIFYSGOL CAERDYDD

CYFRIF CYFNERTHEDIG INCWM A GWARIANT Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012

	Nodyn	2012 £'000	2011 Ailddatganwyd £'000
INCWM			
Grantiau'r Corff Ariannu	2	117,368	120,293
Ffioedd dysgu a grantiau cymorth	3	123,847	119,670
Grantiau a chontractau ymchwil	4	87,654	84,633
Incwm arall	5	93,492	86,516
Incwm o waddolion a llog derbyniadwy	6	3,178	1,918
		425,539	413,030
GWARIANT			
Costau staff	7	249,868	241,457
Treuliau gweithredu eraill	9	150,993	144,219
Dibrisiant	11	14,858	13,910
Llog taladwy a chodiadau tebyg	8	1,369	2,877
		417,088	402,463
Gwarged ar weithrediadau parhaus ar ôl dibrisio asedau adeg eu prisio, gwaredu asedau a thalu trethi		8,451	10,567
Trosglwyddo o incwm cronnus mewn cronfeydd gwaddol		404	1,220
Gwarged am y flwyddyn wedi'i gadw yn y cronfeydd cyffredinol wrth gefn	22	8,855	11,787

Mae pob un o'r canlyniadau uchod yn codi o weithrediadau sy'n parhau.

Mae cymaryddion y cyfnod blaenorol wedi'u hailddatgan fel y nodir yn Nodyn 34.

DATGANIAD CYFNERTHEDIG O GOST HANESYDDOL Y GWARGEDIION Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012

	Nodyn	2012 £'000	2011 Ailddatganwyd £'000
Gwarged ar weithrediadau parhaus		8,451	10,567
Y gwahaniaeth rhwng codiad dibrisiad ar sail cost hanesyddol a'r codiad dibrisiad gwirioneddol am y flwyddyn o'i gyfrifo ar sail y swm a ail-brisiwyd	21	3,369	3,371
		11,820	13,938

PRIFYSGOL CAERDYDD

**DATGANIAD CYFNERTHEDIG O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION
CYDNABYDDEDIG**

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012

	Nodyn	2012	2011
		£'000	Ailddatganwyd £'000
Gwarged ar weithrediadau parhaus ar ôl dibrisio asedau adeg eu prisio, gwerthu asedau a thalu trethi		8,451	10,567
(Dibrisiant)/Arbrisant buddsoddiadau ased gwaddol	20	(675)	1,889
Gwaddolion newydd	20	585	311
(Colled)/Ennill actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	29	(19,810)	29,290
Enillion at brisant y cyfranddaliadau		2,255	-
		<hr/>	<hr/>
CYFANSWM Y (GOLLED)/YR ENILLION CYDNABYDDEDIG MEWN PERTHYNAS Â'R FLWYDDYN		(9,194)	42,057
Addasiad o'r flwyddyn flaenorol	34	(7,891)	-
		<hr/>	<hr/>
CYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG ERS YR ADRODDIAD BLYNYDDOL DIWETHAF		(17,085)	-
		<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

PRIFYSGOL CAERDYDD

Y MANTOLENNI Ar 31 Gorffennaf 2012

	Nodyn	Cyfnerthedig		Y Brifysgol	
		2012 £'000	2011 Ailddatganwyd £'000	2012 £'000	2011 Ailddatganwyd £'000
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau diriaethol	11	327,461	319,765	327,461	319,765
Buddsoddiadau	12	5,141	2,886	5,135	2,880
		332,602	322,651	332,596	322,645
ASED GWADDOLION					
	13	25,081	25,575	25,081	25,575
ASEDAU CYFREDOL					
Stociau	14	141	149	141	149
Dyledwyr	15	44,394	57,410	44,781	58,374
Adneuon tymor-byr		172,177	167,022	172,177	167,022
Arian yn y banc ac mewn llaw		6,476	10,297	6,287	10,027
		223,188	234,878	223,386	235,572
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	16	(76,555)	(87,181)	(76,071)	(86,855)
ASEDAU CYFREDOL NET		146,633	147,697	147,315	148,717
CYFANSWM YR ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		504,316	495,923	504,992	496,937
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	17	(22,326)	(23,618)	(22,326)	(23,618)
INCWM GOHIRIEDIG ARALL	18	(27,023)	(45,813)	(27,023)	(45,813)
ASEDAU NET: heb gynnwys atebolrwydd net am bensïynau		454,967	426,492	455,643	427,506
ATEBOLRWYDD NET AM BENSIYNAU	29	(52,100)	(34,600)	(52,100)	(34,600)
ASEDAU NET: gan gynnwys atebolrwydd net am bensïynau		402,867	391,892	403,543	392,906

PRIFYSGOL CAERDYDD

Y MANTOLENNI

Ar 31 Gorffennaf 2012 (Parhad)

	Nodyn	Cyfnerthedig		Y Brifysgol	
		2012 £'000	2011 Ailddatganwyd £'000	2012 £'000	2011 Ailddatganwyd £'000
GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG	19	116,326	96,157	116,326	96,157
GWADDOLION					
Parhaol	20	22,807	23,278	22,807	23,278
Gwariadwy	20	2,274	2,297	2,274	2,297
		25,081	25,575	25,081	25,575
CRONFEYDD WRTH GEFN					
Ailbriso'r cronfeydd wrth gefn	21	89,174	90,288	89,174	90,288
Cronfeydd cyffredinol wrth gefn	22	172,286	179,872	172,962	180,886
		261,460	270,160	262,136	271,174
CYFANSWM Y CRONFEYDD		402,867	391,892	403,543	392,906

Mae cymaryddion y cyfnod blaenorol wedi'u hailddatgan fel y nodir yn Nodyn 34.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn ar dudalennau 12-42 gan y Cyngor ar 17^{eg} Rhagfyr, 2012

Llofnodwyd ar ran y Cyngor

Yr Athro Colin Riordan - Is-Ganghellor

Philippa Herbert - Trysorydd Mygedol

D M Davies - Cyfarwyddwr Cyllid

PRIFYSGOL CAERDYDD

DATGANIAD CYFNERTHEDIG O'R LLIF ARIAN
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012

	Nodyn	2012 £'000	2011 Ailddatganwyd £'000
Llif arian net o'r gweithgareddau gweithredu	23	16,393	29,427
Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid	24	969	2,040
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol	25	(14,294)	(9,304)
Rheoli adnoddau hylifol	26	(5,155)	(16,212)
Cyllido	27	(1,720)	(1,152)
Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr arian		<u>(3,807)</u>	<u>4,799</u>
Cysoni'r llif arian net â'r symud mewn cronfeydd net			
Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr arian	28	(3,807)	4,799
Mewnlif arian o adnoddau hylifol	28	5,155	16,212
All-lif arian o'r gostyngiad yn y ddyled	28	1,720	1,152
Symud yn y cronfeydd net yn ystod y cyfnod		<u>3,068</u>	<u>22,163</u>
Cronfeydd net ar 1 Awst		<u>151,547</u>	<u>129,384</u>
Cronfeydd net ar 31 Gorffennaf		<u><u>154,615</u></u>	<u><u>151,547</u></u>

PRIFYSGOL CAERDYDD

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012

1. DATGANIAD O'R PRIF BOLISIAU CYFRIFYDDA

Sail y Paratoi

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi'u llunio ar sail busnes byw, wedi'u cymhwyso'n gyson ac yn unol â'r Safonau Cyfrifydda sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig, ac yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifydda mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch ("SORP") a Deddf Elusennau 2011. Os yw'n berthnasol, mae'r Datganiadau Ariannol yn dilyn cyfarwyddiadau cyfrifydda CCAUC.

Sail y Cyfrifydda

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn wedi'u llunio o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'u diwygiwyd drwy ailbrisio'r Buddsoddiadau Ased Gwaddol a rhai asedau sefydlog penodol.

Sail y Cyfnerthu

Er bod y Datganiadau Ariannol cyfnerthedig yn cyfnerthu Datganiadau Ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau am y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Gorffennaf, nid ydynt yn cynnwys rhai Undeb y Brifysgol na rhai Cardiff Partnership Fund Cyf am nad oes gan y Cyngor reolaeth dros eu gweithgareddau ariannol a gweithredol. Mabwysiedir polisiau cyfrifydda unffurf ledled y Grŵp.

Cydnabod Incwm

Mae incwm o Waddolion a Rhoddion Penodol, Grantiau a Chontractau Ymchwil a Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd wedi'i gynnwys i'r graddau y tynnwyd y gwariant uniongyrchol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag unrhyw gyfraniadau cysylltiedig at gostau gorbenion. Credydir yr holl incwm o adneuo'n tymor-byr a Buddsoddiadau Ased Gwaddol Cyffredinol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail dderbyniadwy. Caiff Grantiau Penodol sydd heb eu gwario eu dwyn ymlaen fel Incwm Gohiriedig.

Caiff grantiau rheolaidd gan y Cyngorau Cyllido eu cydnabod yn y cyfnod y'u ceir hwy.

Mae'r ennill a gydnabyddir ar dderbyn cyfraniadau Fusion IP wedi'i ryddhau o'r incwm a ohiriwyd ar hyd llinell syth dros oes 10-mllynedd y cytundeb.

Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus

Gwneir darpariaeth benodol ar gyfer dyledion unigol os bernir bod amheuaeth ynglŷn â'u hadennill ar sail profiad hanesyddol.

Cynlluniau Pensiwn

Y tri phrif gynllun pensiwn diffiniedig i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (yr USS), Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (y CUPF) a'r Cynllun Llywodraeth Leol (yr LGS). Cynlluniau budd-dal diffiniedig a ariannir yw'r rhain, ac maent wedi'u contractio allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion. Prisir y cronfeydd bob tair blynedd gan actiwari sydd â chymwysterau proffesiynol ac fe wnaiff hynny gan ddefnyddio'r dull cronni neu'r dull oed-a-gyrhaeddwyd, ac ymddiriedolwyr y cynllun, ar sail y cyngor a gânt gan yr actiwari, sy'n penderfynu ar gyfraddau'r cyfraniadau sy'n daladwy.

Mewn perthynas â'r CUPF a'r LGS, yr ased neu'r atebolrwydd net a gydnabyddir yn y fantolen yw gwerth presennol y rhwymedigaethau o ran buddion diffiniedig llai gwerth teg asedion y cynllun. Mesurir asedau'r cynllun gan ddefnyddio cyfraddau'r farchnad wrth iddi gau, a mesurir yr atebolrwyddau o ran pensiwn gan ddefnyddio dull yr uned a daflunnir ac yna'i disgowntio ar gyfradd elw gyfredol bondiau corfforaethol sydd o safon ac â thelerau tebyg. Caiff y cynnydd yng ngwerth presennol yr atebolrwydd y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth y gweithwyr cyflog yn ystod y flwyddyn ei godi ar gostau staff. Caiff yr elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun a'r cynnydd yn ystod y flwyddyn yng ngwerth presennol atebolrwyddau'r cynllun yn sgil treigl amser eu codi fel traul llog. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig.

Gan nad oes modd adnabod cyfran y Brifysgol o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol yr USS, fe gyfrifir am yr USS, fel y caniateir gan FRS 17, fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a chodir y cyfraniadau iddo ar gostau staff yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae Cynllun Blwydd-Dal y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG) yn weithredol yn achos rhai aelodau o'r staff. Cynllun cyfraniadau diffiniedig sydd heb ei ariannu yw cynllun y GIG, a thelir budd-daliadau pensiwn o'r cyfraniadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ac yn ôl y cyfraddau cyfrannu y penderfynir arnynt gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

PRIFYSGOL CAERDYDD

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012

Arian Tramor

Cofnodir trafodion a wneir mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid a oedd ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Trosir asedau ariannol ac atebolrwyddau mewn arian tramor i arian Prydain yn ôl y cyfraddau diwedd-blwyddyn a chaiff y gwahaniaethau yn y cyfraddau cyfnewid sy'n deillio o hynny eu cynnwys wrth benderfynu ar y diffyg neu'r gwarged am y flwyddyn.

Prydlesi

Mae prydlesi ariannol, sef prydlesi sy'n rhoi'r un hawliau i raddau helaeth â pherchnogaeth ac sy'n gysylltiedig ag eitemau sylweddol o ran peiriannau, offer a cherbydau wedi'u cyfalafu a'u dibrisio yn unol â pholisi dibrisio'r Brifysgol, yn amodol ar uchafswm cyfnod tymor y brydles. Mae elfen gyfalaf y taliadau prydles at y dyfodol wedi'i chynnwys yn 'credydwy'r eraill'. Mae elfen llog y taliadau prydles yn gyfran gyson o'r balans cyfalaf sy'n ddyledus ac fe'i codir i'r cyfrif elw a cholled dros gyfnod y brydles.

Caiff incwm a chostau rhent dan brydlesi gweithredol eu credydu a'u codi i incwm ac i wariant, yn y drefn honno, mewn cyfansymiau blynyddol cyfwerth dros gyfnodau'r prydlesi.

Tir ac Adeiladau

Mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â darpariaethau FRS15 (Asedau Sefydlog Diriaethol) ac wedi cadw Tir ac Adeiladau yn ôl eu gwerth llyfr net (yn amodol ar y gofyniad i'w hadolygu'n flynyddol am amhariad arnynt). Gwnaed y prisiad diwethaf o safle Parc Cathays ym mis Gorffennaf 1998 gan Gerald Eve, Tirfesurwyr Siartredig. Prisiwyd eiddo prydlesol ar safle Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan Asiantaeth Swyddfa Brisio Caerdydd a gwnaed y prisiad o eiddo arall hen Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru gan Burnett Davies, Tirfesurwyr Siartredig.

Gynt, sail prisiad eiddo rhydd-ddaliadol anarbenigol ac eiddo prydlesol anarbenigol oedd y gwerth ar y farchnad agored ar gyfer y defnydd cyfredol ohonynt; sail prisiad eiddo rhydd-ddaliadol arbenigol ac eiddo prydlesol arbenigol oedd cost yr ailosod ar ôl y dibrisio ac mae'r gwerth hwnnw wedi'i bennu bellach. Delir tir yn rhydd-ddaliadol ac ni chaiff ei ddibrisio am y credir bod iddo oes ddefnyddiol amhenodol.

Dibrisir adeiladau dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig o 50 mlynedd a thir prydlesol dros oes y brydles hyd at uchafswm o 50 mlynedd. Caiff adnewyddiadau sylweddol sydd â chost cyfalaf o fwy na K£250 ac sy'n cynyddu gwerth yr adeiladu eu cyfalafu a'u dibrisio dros 15 mlynedd. Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu mo'u dibrisio tan iddynt gael eu comisiynu.

Os caiff adeiladau eu caffael gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y disgrifiwyd uchod. Caiff y grantiau cysylltiedig eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr adeiladau.

Mae'r Brifysgol yn glynu wrth Femorandwm Ariannol CCAUC sy'n ei gwneud hi'n ofynnol cael cymeradwyaeth CCAUC cyn cychwyn trafodion sy'n effeithio ar eiddo a adeiladwyd neu a ddatblygwyd gyda grantiau a dalwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail cyngor y Cynghorau Cyllido.

Offer

Caiff gwerth offer sy'n costio llai na £10,000 yr eitem neu grŵp o eitemau cysylltiedig ei ddileu ym mlwyddyn eu caffael. Caiff yr holl offer eraill eu cyfalafu ac eithrio'r offer a ariannir o Grantiau Ymchwil ac sy'n costio o dan £50,000 ac a gaiff hefyd eu dileu ym mlwyddyn eu prynu.

Caiff offer a gyfalafwyd eu rhestru yn ôl eu cost, gan gynnwys y pris prynu ynghyd â chostau cysylltiedig uniongyrchol eu caffael, a cânt eu dibrisio ar sail llinell syth dros dymor y brydles fyrraf a'r oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Prif gyfrifiadur ac offer ffôn	-	7 mlynedd
Cherbydau modur ac offer cyffredinol eraill	-	4 blynedd

Caiff offer sy'n costio dros £50,000 ac a ariannir gan Grantiau Ymchwil eu cyfalafu a'u dibrisio dros yr isaf o'r uchod a'r blynyddoedd sy'n weddill o'r prosiect. Caiff y grantiau cysylltiedig eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr offer.

PRIFYSGOL CAERDYDD

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2012

Grantiau a chyfraniadau cyfalaf

Rhoir cyfrif am grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gafwyd gan y Brifysgol i gyllido gwaith adeiladu neu brynu asedau cyfalaf fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau cysylltiedig.

Buddsoddiadau

Cynhwysir Buddsoddiadau Ased Gwaddol yn y Fantolen yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Cynhwysir Buddsoddiadau Ased Sefydlog yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Cynhwysir Buddsoddiadau Ased Cyfredol yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu FRS26; Offerynnau ariannol; Cydnabyddiaeth a mesur, ac o ganlyniad caiff y symudiad yng ngwerth cyfranddaliadau Fusion Ccc ei gario'n gredyd i'r ad-brisiad wrth gefn drwy'r datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig; câi gostyngiad yn eu gwerth ei godi i'r cyfrif incwm a gwariant fel debyd i'r graddau nad yw gwarged ailbrizio blaenorol yn rhoi cyfrif amdano.

Stociau

